Lle mae'r arian yn mynd



Sut godwyd yr incwm	Cyfanswm £88.9m
Apeliadau	£23.6m
Cyfraniadau a Chymynroddion	£19.4m
Digwyddiadau, Loterïau a Masnachu	£7.2m
Ffioedd am Wasanaethau Gofal	£10.1m
Grantiau i Ariannu Gwasanaethau Lles	£5.6m
Ffioedd Cysylltu	£5.6m
Gwasanaethau Elusennol Eraill	£5.0m
Gwerthu Asedion ac Enillion Buddsoddiadau	£12.4m



Sut wariwyd yr arian	Cyfanswm £75.3m
Gwasanaethau Gofal	£15.1m
Gwasanaethau Lles Cymunedol	£31.1m
Gwasanaethau Aelodaeth	£7.6m
Cyfathrebu ac Ymgyrchu	£4.0m
Cofio a Seremoniol	£2.0m
Cynhyrchu Cyllid	£14.3m
Rheolaeth Gorfforaethol	£1.2m

Mae'r Lleng yn gwario dros £75 miliwn bob blwyddyn yn cario allan ei waith dros y gymuned milwyr a chyn-filwyr. Mae'r Apêl Pabi blynyddol yn codi £26 miliwn, gydag incwm arall yn dod o ddigwyddiadau, cymynroddion, cyfraniadau, nawdd, gwerthiant, ffioedd a buddsoddiadau.

Ymunwch â ni!

Croesawn ddynion a merched o bob oed i ddod yn aelodau. Gall unrhyw un ymuno â'r Lleng – boed gennych gysylltiad gyda'r Lluoedd Arfog ai peidio.

Mae aelodau o'r Lleng yn cyfarfod drwy rwydwaith o ganghennau a chlybiau ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a chyfarfodydd, a gallant fod ynglyn â llawer o weithgareddau'r Lleng, gan gynnwys gweithio ar achosion, codi arian a digwyddiadau'r Lleng yn y Gymuned yn genedlaethol ac yn lleol.

Drwy ddod yn aelod rydych yn helpu i sicrhau fod Prydain yn cynnal ei rhwydwaith cryf o gefnogaeth gymdeithasol a chyfeillgarwch i'r holl gyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mae manteision aelodaeth yn cynnwys:

- Disgownt gyda'n Gwasanaeth Teithio
- Disgownt gan nifer o fudiadau cefnogol
- Cyfraddau ffafriol ar amrywiaeth o yswiriant
- Digwyddiadau cymdeithasol mewn tua 700 o Glybiau Lleng
- Cylchgrawn am ddim a ddanfonir i'ch cartref

- Cyfeillgarwch
- Ymglymiad mewn helpu'r gymuned cyn-filwyr

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda: Adran Aelodaeth – 020 7973 7266; neu Legionline – 0845 725 725; neu eich cangen leol agosaf.

CC1W 07/2007

Digwyddiadau codi arian lleol a chenedlaethol: Cymer ddigwyddiadau er lles Y Lleng Brydeinig Frenhinol le ledled y wlad gydol y flwyddyn. I ganfod eich cyswllt lleol galwch Legionline.

Gwnewch gyfraniad: Croesewir unrhyw gyfraniadau i'r Lleng. Anfonwch eich siec os gwelwch yn dda i The Royal British Legion, 48 Pall Mall, Llundain SW1Y 5JY neu cyfranwch ar lein yn Croesewir unrhyw gyfraniadau i'r Lleng. Anfonwch eich siec os gwelwch yn dda i The Royal British Legion, 48 Pall Mall, Llundain SW1Y 5JY neu cyfrannwch ar lein yn www.britishlegion.org.uk

Rhoddi'n rheolaidd: Mae rhoddion rheolaidd i'r Lleng yn rhoddi cefnogaeth hirdymor inni, ac maent yn gost effeithiol iawn. Am fwy o wybodaeth galwch yr Adran Codi Arian ar 020 7973 7297 neu ewch i www.britishlegion.org.uk

Rhodd Cymorth: Os ydych chi'n talu treth incwm y DG gallwn adennill treth incwm ar eich cyfraniad os cwblhewch ffurflen Datganiad Rhodd Cymorth. Galwch Legionline am fwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.

Cofiwch y Lleng yn eich ewyllys: Byddai rhodd i'r Lleng yn eich ewyllys yn parhau eich cefnogaeth i'r dyfodol. Am gyngor ar sut i gynnwys y Lleng yn eich ewyllys, cysylltwch gyda Legionline.

Dewch yn bartner corfforedig: Gall partneriaeth rhwng y Lleng a'ch mudiad greu proffil uchel a chyfle marchnata proffidiol. Am fanylion ynglŷn â'r manteision galwch Legionline neu e-bostiwch ideas@britishlegion.org.uk

Siopa dros y Lleng: Drwy siopa ar lein yn www.buy.at/poppyappeal gallwch helpu'r Lleng - mae llawer o fanwerthwyr y stryd fawr yn cyflenwi nwyddau yn rhatach, a gwneir cyfraniad i'r Lleng o bob pryniant.

Pobl Pabi: Rydym yn wastad angen mwy o Gasglwyr Pabi, Gweithwyr Achosion ac Ymwelwyr Ysbytai a'r Caeth i'w Cartref. Os oes gennych yr amser a'r diddordeb mewn gwirfoddoli cysylltwch gyda ni.

Y Goedfa Goffa Cenedlaethol

Mae'r Goedfa Goffa Genedlaethol, a grëwyd yn 1997, yn deyrnged byw fydd am byth yn cydnabod aberth personol gwasanaethau Arfog a sifil y wlad.

Gyda rhyw 50,000 o goed eisoes wedi eu plannu, a 120 o leiniau pwrpasol wedi eu sefydlu ar y safle, mae'r Goedfa yn le lle y gall cenedlaethau heddiw ac yfory grwydro drwy goedlannau sy'n tyfu a mwynhau harddwch y coed. Daw teuluoedd a ffrindiau o hyd i le tawel a hardd i gofio anwyliaid, yn enwedig y rhai wnaeth yr aberth eithaf dros eu gwlad.

Mae gan y Goedfa Goffa Genedlaethol lawer i'w gynnig i'r hen a'r ifanc. Dewch draw i fwynhau'r heddwch a llonyddwch, y coed, y cofebion, yr hanes, a'r ymdeimlad o falchder cenedlaethol.

Ymwelwch â'r wefan yn www.thenma.org.uk

Legionline: 08457 725 725

Legionline yw llinell gymorth gwasanaeth gwybodaeth y Lleng. Ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, 10am – 4pm. Pob galwad ar raddfa leol.

Cysylltwch gyda ni:
Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Teleffon: 020 7973 7200
Ffacs: 020 7973 7399
www.britishlegion.org.uk
Rhif elusen gofrestredig 219279

britishlegion.org.uk

YNGLŶN â'r Lleng

Pwy yr ydym ...

Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn darparu cefnogaeth ariannol, cymdeithasol ac emosiynol i filiynau sydd wedi gwasanaethu neu sydd yn gwasanaethu ar hyn o bryd yn y Lluoedd Arfog, a'u dibynyddion. Mae bron i 10.5 miliwn o bobl yn gymwys i dderbyn ein help – dyna 1 ymhob 6 o bobl.

Rydym hefyd yn un o'r mudiadau aelodaeth mwyaf yn y wlad, gyda dros 400,000 o aelodau, ac 11,000 arall dramor. Croesawn ddynion a merched o bob oed, a ydynt wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ai peidio.

Wedi ei sefydlu yn 1921, mae'r Lleng nid yn unig yn ymwneud â'r rhai fu'n ymladd yn nau ryfel byd y ganrif ddiwethaf, ond hefyd hefyd y rhai fu yn y croestyniadau lawer ers 1945, a'r rhai sy'n dal i frwydro dros yr heddwch a fwynhawn heddiw. Eleni, fel ag yn wastad, anfonwyd milwyr Prydeinig i flaen y gad rhai o lefydd mwyaf peryglus y byd a gallent fod angen ein help yn y dyfodol. Yn ogystal â darparu gofal lles eang, ni yw ceidwad Cofio, i sicrhau nad aiff eu haberth yn angof.

Beth a wnawn ...

Y Lleng yw'r prif lais dros filwyr a chyn-filwyr gydol y flwyddyn. Ymgyrchwn a lobïwn ar ystod eang o faterion, gan gynnwys iechyd meddwl a chorfforol, tai a digartrefedd, cyflogaeth, gofal cymunedol ac oedolion, anabledd, datblygu sgiliau a dyled. Ein nod yw dal i wella'r lles a chefnogaeth a ddarperir i gyn-filwyr a'u dibynyddion o bob oed.

Ni yw ceidwad Cofio, i sicrhau bod y rhai roddodd eu bywyd dros y rhyddid a fwynhawn ni heddiw yn cael eu cofio'n wastad. Rydym yn gyfrifol am y Tawelwch Dau Funud ar y Sul Cofio ac ar 11 Tachwedd, gan ddod a Chofio i'r calendr cenedlaethol. Rydym hefyd yn trefnu Gŵyl y Cofio yn flynyddol yn Neuadd Frenhinol Albert, a chynorthwywn gyda'r orymdaith heibio'r Gofadail ar y Sul Cofio.

POPPY SUPPORT

For Service people past and present and their families

Mae bron i 10.5 miliwn o bobl yn gymwys i dderbyn ein cefnogaeth lles. Ymladdwn bron i 36,000 o achosion Pensiwn Anabledd Rhyfel dros hen filwyr a gwnawn oddeutu 300,000 o ymweliadau lles a chyfeillgarwch bob blwyddyn. Gallwn gynnig cymorth ariannol mewn argyfwng brys, neu helpu cyn-filwyr digartref i gael eu cefn atynt. Rydym hefyd yn cynghori pobl ar hawliau iawndal, a chynnig cyngor gyrfaoedd i'r rhai sy'n edrych at ail-gychwyn ar ôl gadael y Lluoedd. Mae ein gwasanaethau lles wedi eu rhannu i chwe chategori ar hyn o bryd, er bod Cefnogaeth Pabi yn edrych at ehangu ei wasanaethau yn y misoedd i ddod:

- Cyngor Pabi: Gallwn gynnig cyngor ar Bensiynau Rhyfel, Hawliau Iawndal a hefyd gyngor gyrfaoedd i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd.
- Cronfeydd Pabi: Gallwn ddarparu arian mewn argyfwng dros dro, fel digartrefedd, neu helpu gyda benthyciadau ar gyfer trwsio eiddo a chychwyn busnes bychan.
- Cartrefi Pabi: Rhan fawr o'n gwaith lles yw darparu gofal tymor byr a hirdymor i gyn-filwyr a'u dibynyddion yn ein saith Cartref Pabi ledled y wlad.
- Seibiannau Pabi: Mae gennym bedwar Canolfan Seibiant Pabi ar gyfer y rhai sy'n gwella o afiechyd neu brofedigaeth, wedi eu lleoli yn rhai o'r trefi glan môr traddodiadol mwyaf poblogaidd.
- Pobl Pabi: Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol i'n mudiad - gallwch ymuno fel Casglwr Pabi, neu fel Gweithiwr Achos, yn darparu cefnogaeth emosiynol a chymorth ymarferol yn y gymuned leol. Rydym hefyd yn chwilio am fwy o Ymwelwyr Ysbytai a'r Caeth i'w Cartref.
- Teithio Pabi: Cynigiwn bererindodau Teithiau Cofio a theithiau i fynwentydd rhyfel, cofebion a meysydd y gad dros y byd, gyda phob un wedi ei ddylunio fel gwyliau ymlaciol ac addysgiadol. Gellir teilwra'r rhain ar gyfer ysgolion a grwpiau.

Yr Apêl Pabi

Bob blwyddyn bydd y genedl yn datgan ei chefnogaeth glir i waith y Lleng drwy ei chefnogaeth hael i'r Apêl Pabi. Mae'n un o'r ymgyrchoedd mwyaf adnabyddus yn y calendr gan dderbyn llawer o gefnogaeth. Mae'r Ffatri Pabi yn Richmond, Llundain yn cynhyrchu miliynau o babïau bob blwyddyn, ynghyd a'r torchau a osodir mewn gwasanaethau Cofio ledled y wlad a'r petalau pabi a syrthiant yn ystod y Gwasanaeth Cofio yn Neuadd Frenhinol Albert. Daeth y pabi yn symbol o fyfyrdod a gobaith.

Pam pabïau?

Achosodd y Rhyfel Byd Cyntaf ddifrod cyffredin i ardaloedd yng Ngogledd Ffrainc a Gwlad Belg, ond blodeuodd y pabi bob blwyddyn, gan ddod a lliw a gobaith i'r tirwedd difrodedig. Gwnaeth beth a welodd argraff ddofn ar y Cyrnol John McCrae, meddyg yn gwasanaethu gyda Lluoedd Arfog Canada ac, wedi ei ysbrydoli gan y pabïau, ysgrifennodd gerdd - In Flanders Fields. Bu farw McCrae mewn ysbyty milwrol ar arfordir Ffrainc yn fuan ar ôl iddo ysgrifennu ei gerdd, ond fe'i cyhoeddwyd yng nghylchgrawn Punch, gan ddangos i'r byd amodau maes y gad.

Ar yr unfed awr ar ddeg o'r unfed mis ar ddeg yn 1918, daeth y Rhyfel Byd Cyntaf i ben. Roedd miloedd wedi marw, a miloedd mwy wedi eu hanafu a'u creithio gan eu profiadau erchyll, ac roeddent angen cefnogaeth a help ymarferol pan ddychwelsant. I'r bobl hyn a'u teuluoedd fyddai bywyd byth yr un fath eto.

Roedd sifiliaid eisiau cofio'r bobl roddodd eu bywydau dros heddwch a rhyddid. Ysbrydolwyd Moina Michael, un o Ysgrifenyddion Rhyfel America, gan gerdd John McCrae, a gwerthodd babïau i godi arian ar gyfer y gymuned cyn-filwyr. Ac felly y cychwynnodd y traddodiad.

Yn 1922 sefydlwyd Cymdeithas yr Anabl gan yr Uwch Gapten George Howson MC, a wasanaethodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Gwelodd y gallai cyn-filwyr di-waith wneud pabïau artiffisial a daeth at y Lleng. Sefydlodd ffatri fechan oedd, yn ddiweddarach, i ddod yn Ffatri Pabïau'r Lleng Brydeinig Frenhinol.

Sefydlwyd y Lleng Brydeinig - nawr Y Lleng Brydeinig Frenhinol - yn 1921 o bedwar gwahanol fudiad cyn-filwyr. Cynhaliwyd Diwrnod Pabi'r Lleng gyntaf ym Mhrydain ar 11 Tachwedd 1921, a byth er hynny bu'r Apêl Pabi yn ddigwyddiad blynyddol allweddol yng nghalendr y genedl.

In Flanders Fields
John McCrae, 1915

In Flanders fields the poppies blow
Between the crosses, row on row,
That mark our place; and in the sky
The larks, still bravely singing, fly
Scarce heard amid the the guns below.

We are the Dead. Short days ago
We lived, felt dawn, saw sunset glow,
Loved and were loved, and now we lie
In Flanders fields.

Take up our quarrel with the foe:
To you from failing hands we throw
The torch; be yours to hold it high.
If ye break faith with us who die
We shall not sleep, though poppies grow
In Flanders fields.